CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 28 CHWEFROR 2018

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 28ain o Chwefror 2018 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ken Lloyd, Miriam Moules, Wyn Thomas, Barry Williams, Dr Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Gareth John, Dr Baba Gana, Parchg Tom Defis a Dr Matthew Thomas.

Mr Alun Harries - Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Llinos Jenkins - Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau

406. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng Jeff Thomas (oherwydd salwch) a'r Cyng Julia Ault (ymrwymiadau gwaith).

407. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

Datganodd y Cynghorydd Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

408. Cwestiynau

Dim i'w nodi.

409 . Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Gareth John a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 31ain o Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

410. Materion sy'n codi

Cododd y Cyng Alun Lenny mater mewn perthynas â'r Cyngor Iechyd Cymunedol. Yn rhinwedd ei swydd fel Maer y Dref dywedodd y Cyng Alun Lenny y bydd Cyfarfod Cyhoeddus yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 8 Mawrth i drafod yr opsiynau sy'n ymwneud â dyfodol Ysbyty Glangwili.

411. I gadarnhau a llofnodi'r cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13eg Chwefror 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Barry Williams, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 13eg o Chwefror 2018 a'u derbyn yn gofnod cywir

412. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Tudalen 93:388 - Cylchrediad Papurau Pwyllgor

Cynigiwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone , eiliwyd gan y Cyng. Parch Tom Defis a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr argymhellion.

413. I gadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Parch Tom Defis, eiliwyd gan y Cyng Dr Matthew Thomas, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar y 15fed o Chwefror 2018 a'u derbyn yn gofnod cywir.

414. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion sy'n codi

Tudalen 95:402 - Adolygiad o Reoliadau Ariannol

Cynigiwyd gan y Cyng Gareth John, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr argymhelliad.

415. Adroddiad Clerc y Dref

Ymgynghoriadau Statudol
(a) Cynllunio

W/36811 - Adeilad 4, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin. SA31 3HB - **Dim gwrthwynebiad**

W/36850 – Capel y Priordy, Caerfyrddin - **Cefnogir y cais**

W/36875 - Tir i'r De o'r A40 i'r Gorllewin o Gyffordd Travellers Rest, Caerfyrddin - **Dim gwrthwynebiad**

Cynigiwyd yr ymatebion a restrwyd i'r ymgynghoriadau cynllunio statudol a nodir gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb.

(b) Priffyrdd

Cau Ffyrdd Dros Dro ar gyfer Ras y Maer 7fed o Fai 2018 - **Nodwyd**

(c) Trwyddedu

Jackson's Wine Bar, Jacksons Lane, Caerfyrddin **- Dim gwrthwynebiad.**

416. Enwebu Swyddogion ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/19

(i) Maer

Gwahoddodd y Maer yr Aelodau i enwebu ymgeiswyr ar gyfer swydd y Maer am y flwyddyn 2018/19.

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol i enwebu'r Cyng Emlyn Schiavone yn Faer am y flwyddyn 2018/2019. Diolchodd y Cyng Emlyn Schiavone i'r Aelodau am ei enwebu.

(ii) Dirprwy Faer

Gwahoddodd y Maer yr Aelodau i enwebu ymgeiswyr ar gyfer swydd y Dirprwy Faer ar gyfer Blwyddyn 2018/19.

Cynigiwyd gan y Cyng Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas, y dylid enwebu'r Cynghorydd Jeff Thomas i fod yn Ddirprwy Faer.

Cynigiwyd gan y Cyng Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Dr Baba Gana, y dylid enwebu'r Cyng Phil Grice yn Ddirprwy Faer.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** enwebu'r Cyng Jeff Thomas yn Ddirprwy Faer ar gyfer Blwyddyn 2018/19. Diolchodd y Cyng Jeff Thomas i'r Aelodau.

(iii) Siryf y Dref

Gwahoddodd y Maer yr Aelodau i enwebu ymgeiswyr ar gyfer swydd y Siryf am y flwyddyn 2018/19.

Cynigiwyd gan y Cyng Parch Tom Defis, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules, a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol i enwebu'r Cyng Angharad Jones Leefe yn Siryf am y flwyddyn 2018/19.

417. Cyfarfod Blynyddol

(i) Dyddiad y Cyfarfod Blynyddol

PENDERFYNWYD mai dyddiad Cyfarfod Blynyddol ac Urddo'r Maer 2018 fydd nos Wener yr 11eg o Fai, yn y Neuadd Sirol.

(ii) Derbyn Tystysgrif

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn anfon enwebiadau ymlaen at y Cyng Alun Lenny gynted ag y bo modd ar gyfer derbyn tystysgrif.

(iii) Penodi Aelodau i gynnig ac eilio gair o ddiolch i'r Maer sy'n ymddeol yn y seremoni urddo'r Maer.

PENDERFYNWYD y cynigir gair o ddiolch i'r Maer sy'n Ymddeol yn y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor nos Wener y 11eg o Fai 2018, gan y Cyng Arwel Lloyd a'i eilio gan y Cyng Phil Grice.

418. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

419. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

NODWYD adroddiadau'r Cynghorwyr

420. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

421. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40 pm